GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR GWYNEDD
(GWAHARDDIAD AROS)
(A4087 FFORDD CAERNARFON BANGOR) 2021

Mae Cyngor Gwynedd (y cyfeirir ato wedi hyn fel "y Cyngor") trwy ymarfer ei bwerau o dan Adran 9 a 10 a rhan IV o atodlen 9 o Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984"), fel y newidiwyd a Deddf Rheolaeth Trafnidiaeth 2004 a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984 drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

RHAN I
ENWI A DEHONGLI

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar yr 31ain dydd o Fai 2021 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod dim hwy na 18 mis a gellir ei ddyfynnu a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Arbrofol Cyngor Gwynedd (Gwaharddiad Aros) (A4087 Ffordd Caernarfon Bangor) 2021.

2. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle bo'r cyd-destun yn golygu rhywbeth gwahanol mae i'r ymadroddion a ganlyn yr ystyron a roddir iddynt yma:

   mae gan *"Ambiwlans"* yr un ystyr a'r hyn sy'n y Ddeddf Ecséis a Chofrestru Cerbydau 1994;

   golyga *"Asiant Awdurdodedig"* y contractwr gwasanaethau parcio a benodwyd gan neu a awdurdodwyd yn briodol i weithredu ar ran y Cyngor i ddibenion goruchwylio a gorfodi'r Gorchymyn hwn;

   mae *"Man Parcio Awdurdodedig"* yn golygu unrhyw Fan Parcio ar y ffordd a awdurdodwyd neu a ddynodwyd gan y Gorchymyn hwn;

   mae ystyr *"Bws"* yr un fath a'r hyn sydd yn Adran 1 Deddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981;

   golyga *"Arosfan Bws"* unrhyw ran o'r gerbydlon a fwriadwyd i Fysiau aros, sydd wedi ei chynnwys ac wedi ei dangos gan farciau ar y ffordd ac yn ymgorffori'r geiriau "Arosfan Bws" sydd yn cydymffurfio gyda Rheoliadau 2016;

mae *"Clirffordd Arosfan Bws"* yn golygu unrhyw ran o'r Gerbydlon a fwriadwyd ar gyfer bysiau sy'n aros, sydd wedi ei chynnwys ac a ddangosir gan farciau ffordd ag arwydd sy'n cydymffurfio gyda Rheoliadau 2016;

mae *"Cerbydlon"* yn golygu ffordd sy'n briffordd neu wedi ei chynnwys yn rhan ohoni (heblaw am drac beic) y mae gan y cyhoedd hawl tramwy i gerbydau deithio;

mae gan *"Swyddog Gorfodi Sifil"* yr un ystyron ac sydd yn cael ei ddiffinio yn Adran 76(1) o'r Deddf 2004

mae i *"Cerbyd Person Anabl"* yr un ystyron ac sydd yn y Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau i Bobl Anabl) (Cymru) 2000;

mae *"Bathodyn Person Anabl "* a *" Disg Parcio"* yn golygu'r bathodyn a'r disg a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 fel y diwygiwyd gan Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) (Diwygio) 2014 neu yn fathodyn sy'n gweithredu o dan y rheoliadau yma fel pe byddai'n Fathodyn Person Anabl;

golyga *"Gyrrwr"*, mewn perthynas â cherbyd sy'n aros mewn lle parcio neu ar ffordd neu ddarn o ffordd, y person oedd yn gyrru'r cerbyd ar yr adeg y cafodd ei adael yn y Man Parcio hwnnw neu'r ffordd neu ran o'r ffordd;

mae *"Deddfiad"* yn golygu unrhyw ddeddfiad, boed yn gyhoeddus cyffredinol neu yn lleol, ac mae'n cynnwys unrhyw orchymyn, is-ddeddf, rheol, rheoliad, cynllun neu unrhyw offeryn arall sydd mewn grym drwy rinwedd Deddfiad a bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw Ddeddfiad yn cael ei ystyried fel cyfeiriad at y Deddfiad hwnnw fel y newidiwyd, defnyddiwyd, cydgrynhowyd, ail-ddeddfwyd neu sydd mewn grym drwy rinwedd unrhyw Ddeddfiad dilynol;

mae *"Nwyddau"* yn golygu nwyddau neu lwyth o unrhyw ddisgrifiad ac yn cynnwys pecynnau post o unrhyw fath;

mae *"Cerbyd Nwyddau"* yn golygu cerbyd modur sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu i gludo Nwyddau ac nad yw yn ddim mwy na 5.30 metr o hyd neu 2.25 metr o uchder;

mae *"Cerbyd Hacni"* yn golygu'r diffiniad a rhoddwyd dan Adran 38 Ddeddf Cymalau Heddlu Trefol 1847

mae gan *"Dyfais Rhwystro Symud"* yr un ystyron ac ag yn Adran 104(9) o'r Ddeddf 1984

mae *"Llwytho"* yn cynnwys Llwytho neu Ddadlwytho Nwyddau i neu o gerbyd;

mae gan *"Feic Modur"* a *"Cerbyd yr Anabl"* yr un ystyron ag yn Adran 136 o Ddeddf 1984;

mae gan *"Cerbyd Modur"* yr un ystyr a'r hyn sydd yn Adran 136 o Ddeddf 1984;

golyga *"Perchennog"*, mewn perthynas â'r cerbyd yr unigolyn sy'n cadw'r cerbyd. Wrth benderfynu pwy oedd Perchennog y cerbyd ar unrhyw adeg fe ragdybir mai'r Perchennog yw'r unigolyn y cafodd y cerbyd ei gofrestru yn ei enw ar y pryd o dan y Ddeddf Ecséis Cerbydau a Chofrestru 1994;

mae *"Man Parcio"* yn golygu unrhyw Fan Parcio a ddangosir ar Gerbydlon gan farciau yn unol â Rheoliadau 2002, ar ffordd a ddynodwyd gan orchymyn a wnaed neu sydd a'r effaith fel pe tai wedi ei wneud o dan Ddeddf 1984;

mae *"Tâl Cosb"* a *"Tâl Cosb Gstyngol"* yn golygu tâl sydd wedi ei osod gan y Cyngor o dan ddarpariaeth adran 78 o'r Ddeddf 2004 a Chanllawiau 2013 sydd i'w talu i'r Cyngor o fewn 28 diwrnod yn dechrau gyda dyddiad y rhybudd, neu 14 diwrnod mewn achosion o Dâl Cosb Ostyngol yn dilyn cyhoeddi'r Rhybudd Tâl Cosb;

golyga *"Rhybudd Tâl Cosb"* neu *"RhTC"* rybudd a rhoddwyd neu a gyflwynwyd gan Swyddog Gorfodaeth Sifil yn unol â darpariaethau adran 78 o'r Ddeddf 2004;

mae *"Oriau a Ganiateir"* yn golygu'r oriau a nodwyd ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn;

mae *"Cynlluniau"* yn golygu'r cynlluniau yn yr Atodlen sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn;

mae *"Safle Perthnasol"* o safbwynt: -

(a) Bathodyn Person Anabl, yn golygu

(ii) yn achos cerbyd gyda borden flaen neu banel ffasgia, bydd y bathodyn yn cael ei arddangos arno fel bod rhan 1 o'r bathodyn yn glir o du allan i'r cerbyd; neu

(iii) yn achos cerbyd heb forden flaen neu banel ffasgia, bydd y bathodyn yn cael ei arddangos mewn safle amlwg ar y cerbyd fel bod rhan 1 o'r bathodyn yn glir o du allan i'r cerbyd;

(b) mae Disg Parcio Person Anabl, yn golygu bod yr ochr sy'n dangos y chwarter awr pan ddechreuodd yr amser aros i'w weld yn glir o du allan i'r cerbyd;

(c) mae Cerdyn Parcio Preswylydd a Thystysgrif Hepgor, yn golygu

(i) yn achos cerbyd gyda borden flaen neu banel ffasgia, bydd y Cerdyn Parcio yn cael ei arddangos arno fel bod rhan o'r Cerdyn i'w weld yn glir o du allan i'r cerbyd; neu

(ii) yn achos cerbyd heb forden flaen neu banel ffasgia, bydd y Cerdyn Parcio yn cael ei arddangos mewn safle amlwg ar y cerbyd fel bod y Cerdyn i'w weld yn glir o du allan i'r cerbyd;

mae *"Safle Penodol"* yn golygu cerbyd a adawyd mewn Man Parcio yn ystod yr Oriau a Ganiateir yn unol â darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn sy'n achosi iddo sefyll:-

(a) yn achos y Man Parcio mewn perthynas â lle bo darpariaethau arbennig ynglŷn â'r modd mae cerbyd yn sefyll yn y lle hwnnw wedi eu pennu yn y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn fe fyddant yn unol â'r darpariaethau hynny;

(b) yn achos unrhyw Fan Parcio arall -

(i) os nad yw'r Man Parcio ar stryd unffordd, fod yr ochr chwith neu ochr agosaf y cerbyd ger ochr chwith y Gerbydlon;

(ii) bod y pellter rhwng ochr y Gerbydlon ag olwyn agosaf y cerbyd ddim mwy na 300 milimetr;

(c) fel bod pob rhan o'r cerbyd o fewn cyfyngiadau'r Man Parcio;

(d) nad oes unrhyw ran o'r cerbyd yn rhwystro unrhyw fodd cerbydol o fynediad i mewn neu allan o unrhyw eiddo ger ochr y ffordd lle mae'r cerbyd yn aros.

mae *"Rheng Dacsi"* yn golygu ardal o'r Gerbydlon sydd wedi ei chynnwys o fewn ac wedi ei dangos gan farciau ffordd sy'n cydymffurfio gyda'r Rheoliadau 2016;

golyga *"Oriau Penodol"* yr oriau a nodwyd ar gyfer mannau parcio neu ddadlwytho ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn;

mae gan *"System Telathrebu"* yr un ystyr a'r hyn sydd yn Neddf Telathrebu 1984;

mae *"Rheoliadau 2016"* yn golygu'r Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2016;

mae "*Canllawiau 2013"* yn golygu'r Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Canllawiau ar LefelauTaliadau) (Cymru) 2013/1969;

mae *"Deddf 1984"* yn golygu Deddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984;

mae *"Deddf 2004"* yn golygu Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004

mae *"Arwydd Traffig"* yn golygu arwydd o unrhyw faint, lliw a math a bennwyd neu a awdurdodwyd yn unol â neu a'r effaith fel pe byddai wedi ei bennu neu ei awdurdodi yn unol ag Adran 64 o Ddeddf 1984.

mae *"Tystysgrif Hepgor"* yn golygu tystysgrif a gyflwynwyd yn briodol ar ran y Cyngor i ddibenion Erthygl 25 sy'n caniatáu i gerbyd penodol i aros mewn amgylchiadau penodol ar ddarn neu ddarnau o ffordd lle y byddai'r aros i'r cerbyd hwnnw fel arall yn cael ei wahardd;

3. Ac eithrio lle dywedir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen rifedig yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sydd a'r rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

4. Bydd y gwaharddiadau a osodwyd gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol i ac nid yn amharu ar unrhyw gyfyngiad, gwaharddiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau neu Orchmynion a wnaed neu fel pe byddent wedi eu gwneud o dan Ddeddf 1984, neu gan neu o dan unrhyw Ddeddfiad arall.

5. Oddieithr lle fo'r gwrthwyneb yn cael ei nodi, bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn i:

(a) y Gorchymyn hwn neu Orchymyn arall yn cael eu dehongli fel cyfeiriad i'r Gorchymyn hwn neu, fel bo'n berthnasol, orchymyn arall, gan y gall fod hwn wedi neu y bydd o bryd i'w gilydd yn cael eu newid, amrywio neu ychwanegu atynt;

(b) Statud neu Reoliad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at Statud neu Reoliadau o'r fath gan y gall eu bod wedi neu y byddant o bryd i'w gilydd yn cael eu newid neu eu hail-ddeddfu.

6. Mae Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol ac fel pe byddai ar gyfer dibenion Adran 21 o'r Ddeddf honno fod y Gorchymyn hwn yn Ddeddf Seneddol, a phe byddai'r Gorchmynion a ddiddymwyd gan Erthygl 41 yn Ddeddfau Seneddol a ddiddymwyd trwy hynny.

RHAN II
GWAHARDD AROS

7. Oddieithr fel y darparwyd yn Erthyglau 8 i 10 o'r Gorchymyn hwn nid fydd unrhyw unigolyn, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl o'r heddlu yn ei wisg, neu Swyddog Gorfodi Sifil, yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd i aros ar y ffyrdd neu ochrau'r ffyrdd a nodwyd ar y Cynllun ac yn yr Atodlen Gyntaf i hyn.

8. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu i Ganiatáu i unrhyw gerbyd i aros cyn belled â'i fod yn angenrheidiol i'r diben i alluogi Nwyddau i gael eu llwytho neu eu dadlwytho o'r cerbydau ar y ffyrdd a nodwyd ar y Cynlluniau ac yn yr Atodlen Gyntaf i hyn.

9. (1) Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd i aros ar unrhyw un o'r ffyrdd, ddarn o'r ffordd neu ar ochrau'r ffordd a nodir yno cyn belled a bo hi'n angenrheidiol i alluogi:

(a) unigolyn i fynd i gerbyd neu ddod oddi arno:

(b) fel y gellir defnyddio'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall, mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithgareddau a ganlyn, sef:-

(i) gwaith adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;

(ii) cael gwared ag unrhyw rwystr i drafnidiaeth;

(iii) cynnal, gwella neu ailadeiladu'r ochrau darnau ffyrdd uchod; a

(iv) gosod, codi, newid neu atgyweirio ar dir yn ymyl yr ochrau darnau ffyrdd unrhyw garthffos neu brif bibell, pibell neu offer i gyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw lein cyfarpar telathrebu fel a ddiffinnir yn Neddf Telathrebu 1984;

(c) fel y gellir defnyddio'r cerbyd yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu ymgymerwr dŵr, ymgymerwr carthffosiaeth neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â hawliau neu ddyletswyddau statudol, os na ellir

ei ddefnyddio'n hwylus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall;

(d) cerbyd darparwr gwasanaeth cyffredinol (fel a ddiffinir yn adran 4(3) a (4) o Ddeddf y Gwasanaethau Post 2000) i'w defnyddio i'r diben o ddosbarthu a/neu gasglu'r post;

(e) fel y gellir rhoi petrol, olew dŵr neu aer yn y cerbyd o unrhyw garej a leolir ar neu ger y darnau ffyrdd neu ochrau'r ffyrdd uchod;

(f) i alluogi'r cerbyd i gael ei ddefnyddio i ddibenion y frigâd dân, Ambiwlans neu'r heddlu;

(g) mewn unrhyw achos lle fo'r person sy'n rheoli'r cerbyd,

(i) angen iddo stopio gan y gyfraith;

(ii) yn orfodol iddo stopio i osgoi damwain, neu

(i) ei fod yn cael ei atal rhag symud ymlaen oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

10. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n arddangos yn y Safle Perthnasol, Fathodyn Person Anabl a Disg Parcio, lle mae'r gyrrwr, neu berson arall â chyfrifoldeb dros y cerbyd wedi nodi amser cychwyn y cyfnod aros, i aros ar ochrau neu ddarnau o'r ffyrdd y cyfeirir atynt yn yr Atodlen Gyntaf i hyn ac yn y Cynllun sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn am gyfnod heb fod yn fwy na thair awr (nad yw'n gyfnod wedi'i wahanu gan egwyl o lai nag awr oddi wrth gyfnod aros blaenorol gan yr un cerbyd ar yr un ochrau darnau ffyrdd neu ar yr un ochr ar yr un diwrnod).

RHAN III

MYND YN GROES I'R GORCHYMYN

11. (1) Os caiff cerbyd ei adael mewn Man parcio yn ystod Oriau a Ganiateir neu ar unrhyw ffordd neu ddarn o ffordd yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn, bydd Tâl Cosb yn daladwy a/neu gellir symud y cerbyd o'r lleoliad hwnnw.

(2) Yn achos cerbyd lle mae Tâl Cosb yn daladwy, bydd Rhybudd Tâl Cosb yn cael ei gyflwyno gan y Swyddog Gorfodi Sifil yn unol ag adran 78 o'r Ddeddf 2004 .

(3) Yn achos cerbyd sydd wedi cael Tâl Cosb, dyletswydd y Swyddog Gorfodi Sifil fydd gosod Rhybudd mewn lle amlwg ar y cerbyd, a bydd yn rhybudd sy'n cynnwys y manylion a ganlyn:

(a) y rhesymau pam fod y Swyddog Gorfodi Sifil yn credu bod y Tâl Cosb yn daladwy mewn perthynas â'r cerbyd;

(b) swm y Tâl Cosb sydd yn daladwy;

(c) bod rhaid talu'r Tâl Cosb cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sydd yn cychwyn ar ddyddiad y Rhybudd;

(ch) os bydd y Tâl Cosb yn cael ei dalu cyn pen diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sydd yn cychwyn ar ddyddiad y Rhybudd, bydd swm y Tâl Cosb yn gostwng yn ôl yr hyn a nodir

(d) os na thelir y Tâl Cosb cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod, bydd yn bosibl cyflwyno Rhybudd i'r Perchennog gan yr Awdurdod Lleol i'r person yr ymddengys sydd berchen y cerbyd; a'r

(dd) cyfeiriad lle dylid talu neu anfon tâl y Tâl Cosb.

(4) Nodir ar y Rhybudd Tâl Cosb y bydd y Tâl Cosb yn cael ei dalu ddim hwyrach na 4.30 p.m. ar y pedwerydd diwrnod ar ddeg ar ôl diwrnod cyhoeddi'r Rhybudd Tâl Cosb ond os bydd y pedwerydd diwrnod ar ddeg yn disgyn ar ddiwrnod pan fydd yr adran dan sylw ar gau, bydd y cyfnod talu'r Tâl Cosb i'r Cyngor yn cael ei ymestyn hyd 4.30 p.m. y diwrnod llawn nesaf pan fydd yr adran dan sylw ar agor.

(5) Os na thelir y Tâl Cosb o fewn 28 diwrnod o'r Rhybudd i'r Perchennog bydd yn bosibl codi'r tâl 50% drwy gyflwyno Tystysgrif Tâl.

(6) Gall parhau i beidio â thalu arwain at ddyfarniad yn y llys Sirol yn erbyn y Perchennog, i alluogi'r Cyngor adennill y taliadau dyledus.

(7) Ni fydd gan unrhyw un heblaw gydag awdurdod y Perchennog neu'r unigolyn sydd yn gyfrifol am y cerbyd, neu'r Cyngor, neu o dan eu hawdurdod, hawl i dynnu'r Rhybudd Tâl Cosb sydd wedi'i osod ar gerbyd yn unol â darpariaethau'r Erthygl hon.

(8) Os bydd cerbyd yn cael ei adael ar ôl cael Tâl Cosb, gall Swyddog Gorfodi Sifil yn ei wisg neu unigolyn sydd yn gweithio yn ôl ei gyfarwyddyd osod dyfais rhwystro symud a rhybudd yn unol â gofynion adran 79 o'r Ddeddf 2004 a dylid ond rhyddhau'r cerbyd o'r ddyfais ar ôl derbyn y Tâl Cosb, neu yn ôl fel y digwydd, tâl cosb gostyngol, ynghyd â ffi rhyddhau o'r fath ag y gall fod y Cyngor ei angen.

(9) Pan fydd Swyddog Gorfodi Sifil wedi symud cerbyd neu beri iddo gael ei symud yn unol â pharagraff (1) yr Erthygl hon:

(a) bydd ef/hi yn gofalu bod y cerbyd yn cael ei gadw yn ddiogel;

(b) bydd gan y Cyngor hawl i adennill unrhyw gostau gan y person sydd yn gyfrifol am y fath gostau o ran symud, cadw neu gael gwared â'r cerbyd fel a bennir ganddo o bryd i'w gilydd;

(c) bydd darpariaethau Deddf 1984 yn berthnasol i gael gwared â cherbyd o'r fath a symudir gan neu ar ran y Cyngor yn unol â'r Erthygl hon.

RHAN IV

DILYSRWYDD

12. Os bydd llys, yr Adran Drafnidiaeth, y Gwasanaeth Dyfarnu Parcio Cenedlaethol neu'r Ganolfan Gorfodaeth Traffig yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu na ellir ei orfodi, ni fydd datganiad o'r fath yn annilysu gweddill y Gorchymyn hwn.

Rhoddwyd o dan Sêl Gyffredin Cyngor Gwynedd ar y 12fed dydd o Fai Dwy Fil Dau Ddeg Un.

ATODLEN GYNTAF

GWAHARDDIAD AROS

A4087 FFORDD CAERNARFON BANGOR

Ffordd Dosbarth 1:-

Ymestyn y llinellau melyn dwbl presennol ar ochr orllewinol y ffordd o bwynt 48 metr o'i chyffordd â Choed Mawr am bellter o oddeutu 145 metr i gyfeiriad y de-orllewin.	Dim aros ar unrhyw adeg
Ymestyn y llinellau melyn dwbl presennol ar ochr ddwyreiniol y ffordd gyferbyn â McDonalds am bellter o oddeutu 20 metr i gyfeiriad y gogledd ddwyrain.	Dim aros ar unrhyw adeg
Ymestyn y llinellau melyn dwbl presennol ar ochr ddwyreiniol y ffordd gyferbyn â McDonalds am bellter o oddeutu 42 metr i gyfeiriad y de orllewin.	Dim aros ar unrhyw adeg

THE GWYNEDD COUNCIL

(PROHIBITION OF WAITING)

(A4087 CAERNARFON ROAD BANGOR)

EXPERIMENTAL ORDER 2021

The Gwynedd Council (hereinafter referred to as "the Council") in exercise of its powers under Section 9 and 10 of the Road Traffic Regulation Act 1984 (as amended) and the Traffic Management Act 2004, and of all other enabling powers and after consultation with the Chief Officer of Police in accordance with Part III of Schedule 9 to the Act of 1984 hereby makes the following Order:-

PART I

CITATION AND INTERPRETATION

1. This Order shall come into operation on the 31st day of May 2021 and will remain in force for a period not exceeding 18 months and may be cited as the The Gwynedd Council (Prohibition of Waiting) (A4087 Caernarfon Road Bangor) Experimental Order 2021.

2. In this Order, except where the context otherwise requires, the following expressions have the meanings hereby respectively assigned to them:

"Ambulance" has the same meaning as in the Vehicle Excise and Registration Act 1994;

"Authorised Agent" means the parking services contractor appointed by or duly authorised to act on behalf of the Council for the purposes of the supervision and enforcement of this Order;

"Authorised Parking Place" means any Parking Place on a road authorised or designated by this Order;

"Bus" has the same meaning as in Regulation 22 of the 2002 Regulations;

"Bus Stop" means any area of Carriageway, intended for the waiting by Buses, which is comprised within and indicated by road markings complying with diagram 1025.1 or 1025.3 or 1025.4 and incorporating the words "Bus Stop" in Schedule 6 and a sign complying with diagram 970 in Schedule 5 to the 2002 Regulations;

"Bus Stop Clearway" means any area of Carriageway intended for the waiting by Buses,

which is comprised within and indicated by road markings complying with diagram 1025.1, .3 and .4 in Schedule 6 and a sign complying with diagram 974 in Schedule 5 to the 2002 Regulations;

"Carriageway" means a way constituting or comprised in a highway being a way (other than a cycle track) over which the public have a right of way for the passage of vehicles;

"Civil Enforcement Officer" has the meaning defined in Section 76(1) of the 2004 Act

"Disabled Person's Vehicle" has the same meanings as in the Local Authorities' Traffic Orders (Exemption for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000;

"*Disabled Person's Badge* " and *"Parking Disc"* mean the badge and disc issued by a local authority in accordance with the provisions of the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles)(Wales) Regulations 2000 or being a badge having effect under these regulations as if it were a Disabled Person's Badge;

"Driver", in relation to a vehicle waiting in a Parking Place or on a road or length of road, means the person driving the vehicle at the time it was left in that Parking Place or road or length of road;

"Enactment" means any enactment, whether public general or local, and includes any order, byelaw, rule, regulation, scheme or other instrument having effect by virtue of an Enactment and any reference in this Order to any Enactment shall be construed as a reference to that Enactment as amended, applied, consolidated, re-enacted by or as having effect by virtue of any subsequent Enactment;

"Goods" means goods or burden of any description and includes postal packets of any description;

"Goods Vehicle" means a motor vehicle which is constructed or adapted for use for the carriage of Goods and which does not exceed 5.30 metres in length or 2.25 metres in height ;

"Hackney Carriage" means a vehicle licensed under Section 38 of the Vehicle (Excise) Act, 1971;

"Immobilisation Device" has the same meaning as in Section 104(9) of the 1984 Act

"Loading" includes the Loading or unloading of Goods to or from a vehicle;

"Motor Cycle" and *"Invalid Carriage"* have the same meanings as in Section 136 of the Act of 1984;

"Motor Vehicle" has the same meaning as in Section 136 of the Act of 1984;

"Owner", in relation to a vehicle means the person by whom the vehicle is kept. In determining who was the Owner of the vehicle at any time it shall be presumed that the

Owner was the person in whose name the vehicle was at that time registered under the Vehicle Excise and Registration Act 1994;

"Parking Place" means any Parking Place indicated on a Carriageway by markings in accordance with the 2002 Regulations, on a road designated by an order made or having effect as if made under the Act of 1984;

"Penalty Charge" and *"Reduced Penalty Charge"* means a charge set by the Council under the provisions of section 78 of the 2004 Act and the 2008 Guidelines which is to be paid to the Council within 28 days beginning with the date of the notice, or 14 days in the case of a Reduced Penalty Charge, following the issue of a Penalty Charge Notice;

"Penalty Charge Notice" or *"PCN"* means a notice issued or served by a Civil Enforcement Officer pursuant to the provisions of section 78 of the 2004 Act;

"Permitted Hours" means the hours identified on the plans attached to this Order;

"Plans" means the plans in the Schedule attached to this Order;

"Relevant Position" in respect of: -

(a) a Disabled Person's Badge, means

(i) in the case of a vehicle fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited thereon so that part 1 of the badge is legible from the outside of the vehicle; or

(ii) the case of a vehicle not fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited in a conspicuous position on the vehicle so that part 1 of the badge is legible from the outside of the vehicle;

(b) a Disabled Person's Parking Disc, means that the side showing the quarter hour during which the period of waiting began is legible from outside the vehicle;

(c) a Residents Permit and a Waiver Certificate, means

(i) in the case of a vehicle fitted with a dashboard or fascia panel, the Permit is exhibited thereon so that the Permit is legible from the outside of the vehicle; or

(ii) the case of a vehicle not fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited in a conspicuous position on the vehicle so that the Permit is legible from the outside of the vehicle;

"Specified Position" means a vehicle left in a Parking Place during the Permitted Hours

in accordance with the foregoing provisions of this Order shall cause it so to stand:-

(a) in the case of the Parking Place in relation to which special provisions as to the manner of standing of a vehicle in that place are specified in the plans attached to this Order as to be in accordance with those provisions;

(b) in the case of any other Parking Place -

(i) if the Parking Place is not in a one-way street, that the left or near-side of the vehicle is adjacent to the left-hand edge of the Carriageway;

(ii) that the distance between the edge of the Carriageway and the nearest wheel of the vehicle is not more than 300 millimetres;

(c) so that every part of a vehicle is within the limits of a Parking Place;

(d) that no part of the vehicle obstructs any vehicular means of ingress to or egress from any premises adjacent to the side of the road on which the vehicle is waiting.

"Taxi Rank" means an area of Carriageway which is comprised within and indicated by road markings complying with diagram 1028.2 in Schedule 6 to the 2002 Regulations;

"Specified Hours" means the hours identified for parking or unloading places on the plans attached to this Order;

"Telecommunication System" has the same meaning as in the Telecommunications Act 1984;

"The 2002 Regulations" means the Traffic Signs Regulations and General Directions 2002;

"The 2008 Guidelines" means the Civil Enforcement of Parking Contraventions (Guidelines on Levels of Charges) (Wales) Order 2008

"The 1984 Act" means the Road Traffic Regulation Act 1984;

"The 2004 Act" means the Traffic Management Act 2004

"Traffic Sign" means a sign of any size, colour and type prescribed or authorised pursuant to or having the effect as though prescribed or authorised pursuant to Section 64 of the 1984 Act.

"Waiver Certificate" means a certificate duly issued on behalf of the Council for the purposes of Article 25 Permitting a specified vehicle to wait in specified

circumstances on a length or lengths of road where the waiting of that vehicle would otherwise be restricted;

3. Except where otherwise stated, any reference in this Order to a numbered Article or Schedule is a reference to the Article or Schedule bearing that number in this Order.

4. The prohibitions imposed by this Order shall be in addition to and not in derogation of any restriction, prohibition or requirement imposed by any Regulations or Orders made or having effect as if made under the Act of 1984, or by or under any other Enactment.

5. Save where the contrary is indicated, any reference in this Order to:

(a) this Order or another Order shall be construed as such a reference to this Order or, as the case may be, such other Order, as the same may have been or may from time to time be amended, varied or supplemented;

(b) a Statute or Regulation shall be construed as reference to such Statute or Regulations as the same may have been, or may from time to time be amended or re-enacted.

6. The Interpretation Act 1978 shall apply to the interpretation of this Order as it applies for the interpretation of an Act of Parliament and as if for the purposes of Section 21 of that Act this Order were an Act of Parliament and the Orders revoked by Article 41 were Acts of Parliament thereby repealed.

PART II
PROHIBITION OF WAITING

7. Save as provided in Articles 8 to 10 of this Order no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable in uniform or a Civil Enforcement Officer cause or permit any vehicle to wait on the roads or sides of the roads identified on the Plan and in the First Schedule hereto.

8. Nothing in Article 7 of this Order shall render it unlawful to cause or Permit any vehicle

to wait so long as it may be necessary for the purpose of enabling Goods to be loaded on or unloaded from the vehicles on the roads identified on the Plan and in the First Schedule hereto.

9. (1) Nothing in Article 7 of this Order shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait in any of the roads, lengths of road or on the sides of road specified therein for so long as may be necessary to enable:

(a) a person to board or alight from the vehicle;

(b) the vehicle, if it cannot conveniently be used for such purpose in any other road, to be used in connection with any of the following operations, namely:-

(i) building, industrial or demolition operations;

(ii) the removal of any obstruction to traffic;

(iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the said lengths or sides of road; and

(iv) the laying, erection, alteration or repair in or on land adjacent to the said lengths or sides of road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or of any line of telecommunications apparatus as defined in the Telecommunications Act 1984;

(c) the vehicle, if it cannot conveniently be used for such purposes in any other road, to be used in the service of a local authority, water undertaker, sewerage undertaker or the Environment Agency in pursuance of statutory powers or duties;

(d) the vehicle of a universal service provider (as defined in section 4(3) and (4) of the Postal Services Act 2000) to be used for the purpose of delivering and/or collecting mail;

(e) the vehicle to take in petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the said lengths or sides of road;

(f) to enable the vehicle to be used for fire brigade, Ambulance or police purposes;

(g) in any case where the person in control of the vehicle,

(i) is required by law to stop;

(ii) is obliged to stop so as to prevent an accident, or

(iii) is prevented from proceeding by circumstances outside his

control;

10. Nothing in Article 7 of this Order shall render it unlawful to cause or permit a Disabled Person's Vehicle which displays in the Relevant Position a Disabled Person's Badge and a Parking Disc, on which the Driver or other person in charge of the vehicle has marked the time at which the period of waiting began, to wait in any of the roads, lengths of road or on any of the sides of road identified in the First Schedule hereto and on the Plan attached to this Order for a period not exceeding three hours (not being a period separated by an interval of less than one hour from a previous period of waiting by the same vehicle in the same length of road or on the same side of road on the same day).

PART III

CONTRAVENTION OF ORDER

11. (1) If a vehicle is left in a Parking Place during the Permitted Hours or in any road or length of road in contravention of any provision of this Order, a Penalty Charge shall be payable and/or the vehicle may be removed from that location.

(2) In the case of a vehicle in respect of which a Penalty Charge is payable, a Penalty Charge Notice shall be issued by a Civil Enforcement Officer in accordance with section 78 of the 2004 Act.

(3) In the case of a vehicle in respect of which the Penalty Charge may have been incurred, it shall be the duty of the Civil Enforcement Officer to attach to the vehicle in a conspicuous position a Notice which shall include the following particulars:

(a) the grounds on which the Civil Enforcement Officer believes that the Penalty Charge is payable with respect to the vehicle;

(b) the amount of the Penalty Charge which is payable;

(c) that the Penalty Charge must be paid before the end of the period of 28 days beginning with the date of the notice;

(d) that if the Penalty Charge is paid before the end of the period of 14 days beginning with the date of the Notice, the amount of the Penalty Charge will be reduced by the specified proportion;

(e) that if the Penalty Charge is not paid before the end of the 28 day period a Notice to Owner may be served by the Local Authority on the person appearing to be the Owner of the vehicle; and

(f) the address to which payment of the Penalty Charge must be made or sent.

(4) Payment of the Penalty Charge to the Council shall be made as specified on the PCN to arrive not later than 4.30 p.m. of the fourteenth day following the day on which the Penalty Charge notice was issued provided that if the said fourteenth day falls upon a day on which the said department is closed the period within which the Penalty Charge shall be paid to the Council shall be extended until 4.30 p.m. on the next full day on which the said department is open.

(5) If the Penalty Charge is not paid within 28 days of the Notice to Owner, the charge may be increased by 50% on the issue of a Charge Certificate.

(6) Continuing failure to pay may result in a judgement in the County Court against the Owner to enable the Council to recover payments due.

(7) A Penalty Charge Notice affixed to a vehicle in accordance with the provisions of Article 28 shall not be removed or interfered with except by or under the authority of the Owner or person in charge of the vehicle or the Council.

(8) If a vehicle is left after a Penalty Charge has been incurred, a Civil Enforcement Officer in uniform or a person acting under his direction may attach to the vehicle an Immobilisation Device and a notice in accordance with the requirements of section 79 of the 2004 Act and that vehicle shall only be released from the device on payment of the Penalty Charge, or as the case may be a reduced Penalty Charge, along with such release fee as may be required by the Council.

(9) Where a Civil Enforcement Officer has removed or caused to be removed a vehicle in accordance with paragraph (1) of this Article:-

(a) he/she shall provide for the safe custody of the vehicle;

(b) the Council shall be entitled to recover from the person responsible for such charges in respect of the removal, storage and disposal of the vehicle as it might prescribe from time to time;

(c) the provisions of the 1984 Act shall apply to the disposal of any such vehicle removed by or on behalf of the Council pursuant to this Article

PART IV

VALIDITY

12. If a court, the Department for Transport, the National Parking Adjudication Service or the Traffic Enforcement Centre declares any part of this Order to be invalid or unenforceable, such declaration shall not invalidate the remainder of the Order.

SCHEDULE 1

PROHIBITION OF WAITING

A4087 CAERNARFON ROAD BANGOR

CLASS 1 Road

Extend the existing double yellow lines on the western side of the road from a point 48 metres from its junction with Coed Mawr for a distance of approximately 145 metres in a south westerly direction.	No waiting at any time
Extend the existing double yellow lines on the eastern side of the road opposite McDonalds for a distance of approximately 20 metres in a north easterly direction.	No waiting at any time
Extend the existing double yellow lines on the eastern side of the road opposite McDonalds for a distance of approximately 42 metres in a south westerly direction.	No waiting at any time

Given under the Common Seal of The Council of Gwynedd the 12th day of May Two Thousand and Twenty One.

LLOFNODWYD FEL)
GWEITHRED trwy osod **SÊL**)
GYFFREDIN CYNGOR)
GWYNEDD ym mhresenoldeb:-)

39,502

EXECUTED AS A DEED by)
affixing **THE COMMON SEAL**)
of **GWYNEDD COUNCIL**)
in the presence of:)

Llofnodwr Awdurdodedig
Authorised Signatory



© Crown Copy Right and Database Rights 2021 Ordnance Survey 100023387

39,503

BANGOR, FFORDD CAERNARFON ROAD
DIM AROS AR UNRHYW ADEG/NO WAITING AT ANY TIME

DYDDIEDIG/DATED 12 **MAI/MAY 2021**

GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR GWYNEDD

(GWAHARDDIAD AROS)

A4087 FFORDD CAERNARFON BANGOR 2021

THE GWYNEDD COUNCIL

(PROHIBITION OF WAITING)

A4087 CAERNARFON ROAD BANGOR)

EXPERIMENTAL ORDER 2021

Cyf./Ref: CAT-3777 GT

Iwan G D Evans LLB (Anrh)(Hons) PG.Cert. Dip.L.G,
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/
Head of Legal Services,
Cyngor Gwynedd/Gwynedd Council,
Swyddfa'r Cyngor/Council Offices
Stryd y Jêl/Shirehall Street,
CAERNARFON,
Gwynedd,
LL55 1SH